

Adroddiad data gollyngiadau gorlifoedd stormydd – 2022

Cyflwyniad

Yn unol â chamau CNC a nodir yn y cynlluniau gweithredu ar gyfer gorlifoedd stormydd a'r map trywydd ar gyfer gorlifoedd stormydd, rydym wedi nodi ein sefyllfa reoleiddio bresennol ar ddata gollyngiadau gorlifoedd stormydd ar gyfer 2022. Rydym hefyd yn cynnwys manylion y camau gweithredu cyfredol ac yn y dyfodol o ran rheoleiddio gorlifoedd stormydd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, Ofwat, Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy yn cydnabod yr angen i weithredu ac maent wedi sefydlu Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru i werthuso'r dull presennol o reoli a rheoleiddio gorlifoedd yng Nghymru, ac i nodi cynlluniau manwl i ysgogi newid a gwelliant cyflym.

Ledled Cymru, mae dros 2,000 o [orlifoedd stormydd](#) a ganiateir ar y rhwydwaith carthffosydd. Fe'u cynlluniwyd i leddfu pwysau yn ystod cyfnodau o law trwm pan nad yw'r rhwydwaith carthffosydd yn gallu ymdopi wrth iddo lenwi'n gyflym.

Mae gorlifoedd stormydd (a elwir hefyd yn orlifoedd carthffosydd cyfun) yn un o bynciau llog y drafodaeth gyhoeddus ar ansawdd afonydd a dŵr ymdrochi. Mae galw hefyd i gwmnïau dŵr ddarparu system garthffosiaeth sy'n cael ei rheoli'n briodol yn unol â deddfwriaeth ac y cynllunnir buddsoddiad priodol ar ei gyfer.

Fel rheoleiddiwr amgylcheddol Cymru, rydym yn cydnabod pryder y cyhoedd ynghylch nifer y gollyngiadau o orlifoedd stormydd a'r effaith bosibl ar ein hafonydd. Ein hymrwymiaadau o dan y cynlluniau gweithredu yw cynyddu'r gwaith monitro, casglu tystiolaeth i werthuso effaith gorlifoedd stormydd a chryfhau ein rheolaeth reoleiddiol dros y gollyngiadau hyn.

Mae angen trwydded gan CNC ar orlifoedd stormydd i ollwng yn gyfreithlon i'r amgylchedd. Mae'r drwydded yn cynnwys amodau i warchod yr amgylchedd a rhaid i gwmnïau dŵr gydymffurfio â'r amodau hyn.

CNC oedd y rheoleiddiwr amgylcheddol cyntaf i'w gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr osod monitorau hyd digwyddiad ar bob un o'r gorlifoedd stormydd sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae'r monitorau hyn yn mesur pa mor aml mae gorlifoedd yn gollwng i'r amgylchedd ac am ba mor hir.

Gosodwyd y mwyafrif o fonitorau hyd digwyddiad erbyn 2020, a dim ond nifer fach sy'n parhau heb eu gosod, felly mae'r ddarpariaeth dros 99% ar draws y rhwydwaith. Mae amodau'r drwydded yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr gyflwyno ffurflenni data ar gyfer pob safle yn flynyddol.

Ar ddiwedd mis Chwefror bob blwyddyn, mae Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy yn cyflwyno eu data monitorau hyd digwyddiad i CNC i'w craffu ac yn ei gyhoeddi ar eu gwefannau. Mae

Dŵr Cymru hefyd yn cyflwyno data monitorau hyd digwyddiad sy'n ymwneud â dyfroedd ymdrochi ar ddiwedd mis Tachwedd bob blwyddyn.

[Gweler tudalen we data monitorau hyd digwyddiad Dŵr Cymru.](#)

[Gweler tudalen we data monitorau hyd digwyddiad Hafren Dyfrdwy.](#)

Canfyddiadau o'r data o 2022

Mae'r data yn y tabl isod yn crynhoi datganiadau cryno monitorau hyd digwyddiad 2022 a gyflwynwyd gan Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy.

Penawdau monitorau hyd digwyddiad ar gyfer 2022	Dŵr Cymru	Hafren Dyfrdwy
Cyfanswm y nifer o orlifoedd stormydd a restrir yn y datganiad blynyddol yn 2022	1,946	49
Cyfanswm y nifer o orlifoedd stormydd gyda monitorau hyd digwyddiad a gomisiynwyd	1,942	49
% y gorlifoedd stormydd a restrir gyda monitorau hyd digwyddiad a gomisiynwyd	99.8%	100%
Cyfanswm y nifer o orlifoedd stormydd gyda data ynghylch gollyngiadau	1,886	49
Rhif cyfartalog o ollyngiadau fesul gorlif storm sydd â data ynghylch gollyngiadau yn 2022	39.6	29.0
Hyd cyfartalog (oriau) fesul digwyddiad gollwng a fonitrwyd yn 2022	7.1	7.5
% y gorlifoedd stormydd a ollyngwyd deg gwaith neu lai yn 2022	34.6%	36.7%

Yn ogystal, gan edrych ar ba mor aml y gollyngodd y gorlifoedd stormydd, mae data 2022 yn dangos y canlynol:

- ni ddarparwyd unrhyw ddata gan 4% (70);
- cafodd 12% (247) o orlifoedd storm 0 gollyngiad
- cafodd 21% (416) ollyngiadau rhwng 1 a 9 gwaith

- cafodd 26% (517) ollyngiadau rhwng 10 a 39 gwaith
- cafodd 27% (538) ollyngiadau rhwng 40 a 99 gwaith
- cafodd 10% (202) ollyngiadau rhwng 100 a 299 gwaith
- cafodd llai nag 1% (5) ollyngiadau mwy na 300 o weithiau

Er mwyn gwella tryloywder, o ddata 2022 ymlaen gwnaethom ofyn i gwmnïau dŵr ddarparu mwy o wybodaeth yn eu cyflwyniadau data monitorau hyd digwyddiad. Er enghraifft, rydym nawr yn mynnu bod y math o ased yn cael ei nodi; gallai hyn fod yn orlif storm ar y rhwydwaith carthffosydd, mewn gwaith trin dŵr gwastraff neu mewn gorsaf bwmpio.

Yr hyn y mae data monitorau hyd digwyddiad yn ei ddweud wrthym

Mae data monitorau hyd digwyddiad yn rhoi tystiolaeth o'r canlynol i ni:

- Lle mae gorlifoedd stormydd yn gweithredu'n rhy aml
- Lle mae gorlifoedd stormydd yn gweithredu am gyfnodau hir

Rydym yn adrodd ar ddata monitorau hyd digwyddiad fel rhan o adolygiad perfformiad amgylcheddol blynyddol y ddau gwmni dŵr, a gyhoeddir bob mis Gorffennaf.

Gweler ein hadroddiadau perfformiad cwmnïau dŵr blaenorol ar gyfer [Dŵr Cymru](#) a [Hafren Dyfrdwy](#).

Ein rhaglen waith barhaus

Mae'r Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru wedi datblygu cynlluniau gweithredu ar y cyd i gasglu mwy o dystiolaeth ar effaith gorlifoedd stormydd ar ein hafonydd, i werthuso a lleihau'r effeithiau y maent yn eu hachosi, i wella'r gwaith rheoleiddio ac i addysgu'r cyhoedd am gamddefnyddio carthffosydd.

[Gweler y cynlluniau gweithredu ar wefan Llywodraeth Cymru.](#)

Rydym yn gweithio i wella ein dull rheoleiddio, gan ganolbwyntio ar effaith gorlifoedd stormydd.

Er mwyn cyflawni ein nodau, rydym yn gwneud y canlynol:

Mireinio ein canllawiau rheoleiddio gan gynnwys y diffiniad o ddigwyddiad o law trwm a'r diffiniad o ollyngiad diwrnod sych. Mae hyn yn cryfhau ein gallu i weithredu yn erbyn gorlifoedd stormydd sy'n perfformio'n wael. Mae ein gweithgarwch rheoleiddio yn

canolbwyntio ar gyflawni'r canlyniad amgylcheddol gorau ac mae'n amrywio o gyngor ac arweiniad i gamau gorfodi.

Gwella ein dadansoddiad a'n hoffer i archwilio'r cofnodion rheoleiddio, gan gynnwys gwirio cyflawnrwydd a chywirdeb y cofnodion yn y datganiadau.

Cynyddu ein gweithgarwch cydymffurfedd rheoleiddio yn 2023/24 ar draws yr holl drwyddedau gollwng ansawdd dŵr, gan ganolbwyntio ar y rheini sy'n peri'r risg fwyaf i'r amgylchedd.

Cynnal adolygiad o dystiolaeth ar gyfer gorlifoedd stormydd gyda'r bwriad o ddatblygu a gweithredu rhaglen fonitro well yn 2024.

- Gwella addysg a chyfathrebu ar gamddefnyddio carthffosydd, mewn cydweithrediad ag aelodau Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru.

Gwella hygyrchedd y data monitorau hyd digwyddiad a gyflwynwyd trwy sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan. Trwy waith y Tasglu, mae cwmnïau dŵr wedi ymrwymo i weithio tuag at sicrhau bod data monitorau hyd digwyddiad ar gael bron mewn amser real trwy eu gwefannau. Mae hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, ond disgwylir iddo fod ar gael yn gynnar yn 2024.

Datblygu metrigau adrodd pellach ar gyfer gorlifoedd stormydd fel rhan o adroddiad blynyddol yr Aseiad Perfformiad Amgylcheddol. Mae gwaith eisoes ar y gweill gydag Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar ddatblygiadau'r Aseiad Perfformiad Amgylcheddol o 2026 ymlaen.